

DOLEN

YSGOL
BRO
TEIFI

Rhifyn 8- 17eg o Ebrill 2025

Croeso i rifyn mis Ebrill o'n cylchgrawn, Dolen. Yn ystod y tymor diwethaf, rydym wedi dathlu nifer fawr iawn o lwyddiannau boed ar lwyfan, gae chwarae neu ym maes STEM. Cewch ddysgu ychydig mwy am y llwyddiannau hyn yn y rhifyn hwn.



Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth bwysig gyda chi ynglyn â sut i archebu copi o'n llun ysgol gyfan - y llun cyntaf yn hanes Ysgol Bro Teifi. Edrychwn ymlaen hefyd at rai o ddigwyddiadau'r tymor nesaf lle byddwn yn trefnu a chynnal ein Eisteddfod Ysgol oed uwchradd, ein mabolgampau cynradd ac uwchradd a'n diwrnodau pontio a blasu i flynyddoedd 5 a 6.

Cofiwch i gyrchu i'n gwefan www.ysgolbroteifi.cymru er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol. Cofiwch hefyd, os oes rhywbeth yn eich poeni am addysg eich plentyn yn yr ysgol, bod croeso i chi drefnu apwyntiad i gwrdd gyda mi er mwyn i ni ddarganfod ffyrdd o wella pethau.

Hoffwn ddymuno Pasg Hapus i bob un ohonoch ac edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion nol i'r ysgol ar Ddydd Llun yr 28ain o Ebrill,

Cofion,
G Evans



Amserau Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)

Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I wneud apwyntiad, ewch i



<https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/>

Dathlu Llwyddiannau!

Teithiodd y criw yma o ddisgyblion o flwyddyn 9 i Goleg yr Iesu, Rhydychen ym mis Mawrth. Yno, buon nhw'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Rhwydwaith Seren, sef cystadleuaeth siarad cyhoeddus ar ffurf dadl.

Llongyfarchiadau gwresog iddyn nhw am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Arbennig!




SEREN
ACADEMI • ACADEMY



Llongyfarchiadau mawr i'r tîm peirianeg Bl 12 am eu llwyddiant yng nhystadleuaeth EESW eleni. Enillodd y grŵp wobwr am eu gwaith ar faterion diogelwch wrth weithio gyda chwmni SERB ger Ffostrasol. Roedd y gystadleuaeth yn cynnwys 61 o brosiectau eraill gan ysgolion a cholegau ar draws De Cymru. Da iawn chi.


Llongyfarchiadau i ddisgyblion 'Y Teifi Warriors,' wedi iddynt gystadlu yn y 'dosbarth datblygu' am y tro cyntaf yn nghystadleuaeth 'F1 in Schools'. Daethon nhw'n 2ail yn y categori 'dylunio a pheirianeg' a 'cyflwyniad llafar' ac yn 3ydd yn yr elfen "hunaniaeth brand"

Da iawn chi!



Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r holl ddisgyblion oed cynradd ac uwchradd a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Rhanbarth diweddar. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eu gweld yn perfformio yn Eisteddfod Dur a Môr ym Mharc Margam ym mis Mai. **Amdani!**



Urdd

Gwobrau Cyntaf:

Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau
Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau
Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau
Côr Bl.6 ac iau (dros 150 o blant)
Parti Deulais Bl.6 ac iau
Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4
Dawns Greadigol Bl.6 ac iau
Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)
Deuawd Bl.7-9
Ensemble Lleisiol Bl.7-9
Unawd Telyn Bl.10 a than 19
Dawns werin Bl.7-9
Llefaru Unigol Bl.7-9
Perfformiad Theatrïg Unigol Bl.7-9
Perfformio Golygfa Bl.7-9
Deuawd Bl.10 a than 19
Côr SA Bl.13 ac iau
Ensemble Lleisiol Bl.10 a than 19
Dawns Werin Bl.10 a than 19
Grŵp Llefaru Bl.10 a than 19
Perfformio Golygfa Bl.10 a than 19

Ail Wobr:

Unawd Offer Taro Bl.7-9
Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D)
Llefaru Unigol Bl.5 a 6
Llefaru Unigol Bl.3 a 4
Unawd Bl.2 ac iau
Deuawd Bl.6 ac iau
Unawd SA Bl.10 a dan 19
Unawd merched bl.7, 8 a 9
Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9



**Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025**

Cofiwch ddilyn ein tudalen facebook am wybodaeth pellach



www.facebook.com/BroTeifi

Trydedd Wobr:

Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau
Unawd Bl.5 a 6
Unawd Bl.2 ac iau
Côr SA Bl.7, 8 a 9
Unawd llinynnol Bl.7, 8 a 9

Sêr Chwaraeon Bro Teifi!

Yn ystod tymor y Pasg, gwelwyd nifer o lwyddiannau chwaraeon ar draws ein timoedd oed cynradd ac uwchradd. Ynhgyd â thwrnamentau'r urdd, cystadleuthau cenedlaethol a thaith i dwrnamaint rygbi 7 bob ochr Parc Rosslyn, braf yw gweld ein disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd chwaraeon a iechyd a lles niferus. Diolch i'r holl staff am hyfforddi a thywys y disgyblion i'r digwyddiadau hyn.



Tîm Hoci dan 12



Tîm Pêl-Droed BL 4



Tîm Pêl-Droed BL 5 a 6



Tîm Rygbi BL 5 a 6 (A)



Tîm Rygbi BL 5 a 6 (AB)



Tîm Rygbi Merched 7 Bob Ochr BL 7

Sêr Chwaraeon Bro Teifi!



Tîm Rygbi Bechgyn 7 Bob Ochr BL 7



Tîm Rygbi Merched 7 Bob Ochr BL 8



Tîm Rygbi Bechgyn 7 Bob Ochr BL 8



Tîm Rygbi Bechgyn 7 Bob Ochr BL 9



Tîm Rygbi Bechgyn 7 Bob Ochr BL 10/11



Tîm Rygbi Merched 7 Bob Ochr BL 10/11



Tîm Rygbi Bechgyn 7 Bob Ochr BL 7 ac 8 a fu'n cystadlu ym Mharec Rosslyn.

	Team	P	W	D	L	PF	PD	Points
1	Ysgol Bro Teifi Boys-U13A	5	5	0	0	160	105	15
2	Queen Elizabeth's School, Barnet U13A	5	4	0	1	100	60	12
3	West Monmouth School Boys-U13A	5	2	0	3	100	10	6
4	Welland Park Academy Boys-U13A	5	1	1	3	80	-45	4
5	Bennett Memorial Diocesan School Boys-U13A	5	1	1	3	75	-45	4
6	The British School in the Netherlands Boys-U13A	5	0	2	3	60	-85	2

National Sevens Junior Festival

Group N 10:20 Pitch A2

Ysgol Bro Teifi
Boys-U13A

35-5

The British School
in the
Netherlands
Boys-U13A

National Sevens Junior Festival

Group N 11:40 Pitch A4

Ysgol Bro Teifi
Boys-U13A

20-5

Queen Elizabeth's
School, Barnet
U13A

National Sevens Junior Festival

Group N 13:00 Pitch A3

Ysgol Bro Teifi
Boys-U13A

35-10

Welland Park
Academy
Boys-U13A

National Sevens Junior Festival

Group N 14:20 Pitch A5

Ysgol Bro Teifi
Boys-U13A

30-15

West Monmouth
School
Boys-U13A

National Sevens Junior Festival

Group N 15:40 Pitch A1

Ysgol Bro Teifi
Boys-U13A

40-20

Bennett Memoria
Diocesan School
Boys-U13A

Dyddiadau Pwysig Tymor yr Haf

Dyddiad Date	Digwyddiad	Event
7/5/2025	Arholiadau TGAU / Safon Uwch yn dechrau	GCSE / A' Level Examinations Begin
12/05/2025	Wythnos Arholiadau Bl 9	Year 9 Examinations Week
14-16/05/2025	Taith Breswyl Glan Llyn - Bl 6	Yr 6 Residential Trip - Glan Llyn
23/06/2025	DIWRNOD HMS - Ysgol ar Gau i ddisgyblion	INSET DAY - School Closed for Pupils
25-26/06/2025	Diwrnodau Pontio Bl 6	Year 6 Transition Days
25/06/2025	Cyfarfod Pontio i Rieni Darpar ddisgyblion Bl 7	Transition Meeting for Parents of Prospective Yr 7 pupils
27/06/2025	Bron yn Prom - Bl 11	Yr 11- "Bron yn Prom"
27/06/2025	Mabolgampau Bl 1- Bl 6	Yr1 - Yr 6 Sports Day
01/07/2025	Mabolgampau Oed Uwchradd	Secondary Age Sports Day
02/07/2025	Diwrnod Hwyl Blwyddyn 5	Year 5 Fun Day
03/07/2025	Mabolgampau Meithrin a Derbyn	Nursery and Reception Sports Day
10-11/07/2025	Eisteddfod Ysgol Oed Uwchradd	Secondary Age School Eisteddfod
18/07/2025	DIWEDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD	END OF SCHOOL ACADEMIC YEAR

Cymorth Arholiadau

ADOLYGU

AWGRYMIADAU I LWYDDO

BYDDWCH YN DREFNUS

Dechreuwch adolygu'n gynnar, peidiwch â gadael y cyfan tan y diwedd. Gwnewch amserlen ar gyfer adolygu. Adolygwch mewn cyfnodau o 20-30 munud. Gwnewch yn siŵr bod popeth wrth law e.e. offer a cyn papurau.



CREADIGRWYDD

Amrywiaeth! Defnyddiwch luniau, symleiddiwch eich nodiadau'n llwgar, graffiau, odiau. Defnyddiwch gymysgedd o offer print a digidol i yegogi ochr weledol eich ymennydd. Profwch eich hun gyda phobl eraill.



CADW'N ACTIF

Mae bod yn actif yn rhyddhau cemegau sy'n gwella'r cof, egni, ffocws a hyder. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymarfer yn rheolaidd (ac yn cymryd eich meddwl oddi ar yr adolygu). Ystyriwch ychwanegu cyfnodau ymarfer i'ch cynllun adolygu.




CWSG

Ceisiwch wella ansawdd eich cwsg (8-10 awr) Daw adalw gwybodaeth yn gryfach a'n haws ar ôl cwsg da. Mae cwsg yn gwella'ch gallu i ganolbwyntio, cof a chreadigrwydd. Gadewch i'ch ffôn gysgu hefyd!



BWYTA

Dechreuwch gyda brecwast. Taniwch eich corff ac ymennydd gyda bwyd maethlon. Digon o ffrwythau a llysiau gan osgoi bwydydd wedi'u prosesu. Yfwrch digon o ddŵr, sy'n cynyddu pŵer yr ymennydd!



DEFNYDD O DECHNOLEG

Ceisiwch beidio colli ffocws. Peidiwch ddefnyddio ffôn yn ystod cyfnodau adolygu. Gwrandewch ar gerddoriaeth heb eiriau, mae'r geiriau'n cymryd % o'ch gofod gwybyddol, gan adael llai o le i ddysgu.



CYMRYD EGWYL

Gweithiwch yn fwy clyfar, nid am fwy o amser! Fel eich corff, mae angen seibiant ar eich ymennydd i adfer. Cymerwch saib rheolaidd, symudwch, gwnewch dasgau hollol wahanol i adolygu. Mae'r buddion yn debyg i'r buddion cysgu uchod.



COFIWCH...

Nid yw arholiadau'n addas i bawb, rydym i gyd yn unigryw, gyda chryfderau gwahanol. Yn unig beth maen nhaid i chi wneud yw CEISIO EICH GORAU! Pob lwc!



REVISION

TIPS TO SUCCEED

GET ORGANISED

Start revising early, don't leave it all until the end. Create a timetable for revision. Chunk revision into 20-30 minute periods. Make sure you have everything to hand e.g. stationary, past papers.



BE CREATIVE

Variety! Use pictures, simplified and colourful written notes, graphs, rhymes. Use a mixture of both print and digital tools to stimulate the visual side of your brain. Test yourself with others.



EXERCISE

Exercise releases chemicals that improve memory, energy, focus and confidence. Make sure you exercise regularly (and take your mind off revision). Consider timetabling exercise into your revision plan.




SLEEP

Get plenty of quality sleep (8-10 hours) Brain recall becomes stronger after sleep and information becomes easier to access. Sleep improves concentration, memory and creativity. Let your phone sleep also!



EAT

Start with breakfast. Fuel your body and brain with nutritious food. Plenty of fruit and veg and avoid processed foods. Keep hydrated with water which increases brain power!



LIMIT TECHNOLOGY USE

Turn off distractions. No phone use during revision periods. Listen to music without lyrics. Lyrics take up too much cognitive space, leaving little room for learning.



TAKE A BREAK

Work smarter, not harder! Like your body, your brain needs a break to recharge. Take regular breaks, get moving, do an unrelated task. The benefits are similar to those of sleep above.



REMEMBER...

Exams aren't suited to everyone, we all have our individual strengths. The only thing you need to do is TRY YOUR BEST! Good luck!



Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion

CYMORTH STRAEN ARHOLIADAU I BOBL IFANC

Gwyddom y gall arholiadau achosi straen.
Mae gwasanaethau ar gael i bobl ifanc yng
Ngheredigion.

Meic:

<https://www.meiccymru.org/cym/arholiadau/>
Ffôn: 080880 23456 / Neges Destun: 04001

Young Minds:

<https://www.youngminds.org.uk/young-person/coping-with-life/exam-stress/>

MIND:

<https://www.mind.org.uk/for-young-people/feelings-and-experiences/exam-stress/>

Cwmsela Area 43:

<https://www.area43.co.uk/cy/yma-i-chi/>
Ffôn: 0800 0385778

Childline:

<https://www.childline.org.uk/info-advice/school-college-and-work/school-college/exam-stress/>
Ffôn: 0800 1111

Kooth:

<https://www.kooth.com/>

C.A.L.L Mental Health Helpline:

<https://www.callhelpline.org.uk/>
Ffôn: 0800 132 737 / Neges Destun: 81066

SHOUT Mental Health 24/7:

<https://giveusashout.org/>
Neges Destun: 85258

Gwisg Tymor yr Haf

O Ddydd Llun yr 28ain o Ebrill, bydd modd i ddisgyblion i ddod i'r ysgol yn eu gwisg haf yn unol a'r drefn isod:

Meithrin - Blwyddyn 4

Aros yn y crys T polo melyn gyda opsiwn o ffrog "gingham" i'r merched.



Blwyddyn 5 a 6

Crys polo melyn*.



Bydd disgyblion blwyddyn 5 yn cadw'r crys polo melyn fel yr unig wisg ysgol tan ddiwedd blwyddyn 6 (crys a tei yn cael ei ddiddymu yn yr oed cynradd).

*Os oes gan ddisgyblion blwyddyn 5 neu 6 grys polo coch eisoes, yna caniateir iddynt ei wisgo am weddill eu cyfnod yn yr oed cynradd er mwyn arbed rhieni rhag gorfod prynu crys melyn yn ychwanegol.

Blwyddyn 7 - 11

Crys polo coch gyda bathodyn yr ysgol

Blwyddyn 12-13

Crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol



Ap i rieni ar gael nawr!

Er mwyn cael mynediad i'r ap / wefan, dilynwch y canllawiau isod os gwelwch yn dda.

- Ewch i'r wefan <https://www.mychildatschool.com/MCAS/MCSParentLogin>
- Gwasgwch y linc "Ymuno / Sign Up"
- Rhwch cod post yr ysgol **SA44 4JL** NEU cod yr ysgol 16054 i mewn.
- Rhwch eich cyfeiriad e-bost i mewn. Mae angen i hwn i fod yr un cyfeiriad e-bost sydd wedi ei gofrestru gyda ni yn yr ysgol.
- Bydd hyn yn danfon cod unigryw i'r cyfeiriad e-bost a fydd yn caniatáu i chi osod cyfrinair.
- Wedi i chi wneud hyn, bydd modd i chi ddefnyddio'r manylion i mewngofnodi i'r ap ar eich dyfais.
- **NODER:** Nid cyfrif disgybl yw hwn. Mae disgyblion wedi derbyn gwybodaeth yn eu cyfrifon e-bost Hwb sydd yn egluro'r broses o gofrestru ar ap Bromcom i fyfyrwyr iddynt.
- Bydd modd i rieni/ofalwyr i osod cyfrifon ar wahân cyn belled a'u bod nhw a "chyfrifoldeb rhiant" ar ein system.
- Os cewch chi unrhyw anhawster gyda'r broses uchod, cysylltwch gyda'r swyddfa.



Ysgoloriaethau Mynediad




Yn dilyn arholiadau ysgoloriaethau Prifysgol Aberystwyth, llongyfarchiadau i **Mared, Heulyn, Mya, Teleri, Megan, Leisa ac Erin** o flwyddyn 13 sydd wedi derbyn cynnig diamod i astudio yno. Llongyfarchiadau pellach i **Leisa** am dderbyn ysgoloriaeth ariannol, sef Ysgoloriaeth Evan Morgan, ac i **Erin** am ennill gwobr teilyngdod.

Mae **Aeron** hefyd wedi ennill ysgoloriaeth ariannol, sef ysgoloriaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau.



Llun Ysgol Gyfan

Mae ein llun ysgol gyfan nawr ar gael i chi archebu!



Dyma gyfle i chi archebu copi o'r llun arbennig hwn; y llun cyntaf o'r fath yn hanes Ysgol Bro Teifi!

Archebwch rhwng yr 17eg o Ebrill a'r 1af o Fai er mwyn arbed costau postio (bydd y llun yn cael ei ddanfôn yn syth i'r ysgol).

Gwasgwch y linc isod er mwyn gweld copi o'r llun ac i osod eich archeb. Nodwch enw llawn eich plentyn ar yr archeb er mwyn hwyluso trefniadau dosbarthu.

Llun Grŵp Ysgol Gyfan 38" x 10" – <https://htmp.st/CE0039-12>

Os hoffech unrhyw gefnogaeth gyda'r archeb, ffoniwch 01736 752411



*Pasg Hapus
i chi gyd*

